Cenn@d

MAI 18 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 64

Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn penodi Ysgrifennydd Cyffredinol Newydd Llongyfarch Nan Wyn Powell-Davies

Mewn cyhoeddiad a wnaed ar facebook EBC ac mewn ebost i'r eglwysi ddydd Iau diwethaf gan Evan Morgan, Llywydd Cymanfa Gyffredinol EBC, fe rhoddwyd gwybod mai Nan Wyn Powell-Davies o'r Wyddgrug fydd Ysgrifennydd Cyffredinol a Chyfarwyddwr Gweinidogaethau nesaf yr enwad gan gychwyn ar y cyfrifoldeb ym mis Gorffennaf eleni.

Llun: CWM

Dechreuodd Nan ei gwaith i'r Cyfundeb fel swyddog ieuenctid yn ôl yn 1991 lle bu'n gyfrifol am sefydlu clybiau ieuenctid Cristnogol ar hyd a lled Gogledd Cymru. Ar ol hyffyrddi yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth fe ordeiniwyd Nan ynghyd a'i gŵr Huw yn y flwyddyn 2000 i fod yn cydweinidogaethu yng ngofalaeth cylch yr Wyddgrug lle mae Nan yn parhau yn weinidog gwirfoddol yno ac yn gweithio fel Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Gweinidogaethau EBC. Ond yn y cyfamser mae Nan wedi cael llawer o brofiadau mewn nifer o swyddi, ac yn eu plith wedi bod yn gweithio fel caplan yng Ngharchar Altcourse yn Lerpwl am 8 mlynedd. Mae Nan yn fam i dri o blant sy'n oedolion bellach ac yn edrych ymlaen at gyfrifoldeb newydd o fod yn Nain ym mis Medi hefyd. Bydd Nan yn parhau i gadeirio Bwrdd ymgynghorol Cymorth Cristnogol yng Nghymru ac i eistedd gydag ymddiriedolwyr y mudiad yn y DU.

Y mae hi'n olynu'r Parch. Meirion Morris sydd yn ymddeol o'i waith yr haf hwn. Dymunwn yn dda iawn i Meirion yn ei ymddeoliad. Nid Nan yw'r cyntaf o weinidogion yr ofalaeth i fod yn Ysgrifennydd Cyffredinol i'r enwad gan mai o'r Wyddgrug yr aeth y Parch. Gareth Edwards i gyflawni'r gwaith ar ddechrau 1999. Mae gweithio dros y we wedi golygu bod Nan wedi gallu ymuno mewn cyfarfodydd led led y byd a Chymru dros y ddwy flynedd diwethaf, a hynny o gartref yn Llifor, Yr Wyddgurg. Ond pan ddaeth y cyhoeddiad yr oedd Nan yn Llundain gyda mudiad CWM (Cyngor y Genhadaeth Fyd-Eang), fel un o gadeiryddion y prosiect Onesimus sy'n gweithio ar ymateb yr eglwysi sy'n perthyn i'r Cyngor yn fyd-eang, i etifeddiaeth caethwasiaeth yn eu plith fel rhan o'i chyfrifoldeb dros yr enwad.

Dymunwn yn dda iddi yn y cyfrifoldeb newydd hwn a daliwn hi i fyny mewn gweddi am nerth a phob gras wrth iddi gynnig o'i doniau a'i gwasanaeth i Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn y cyfnod newydd a heriol hwn y cawn ein hunain ynddo.

Golygyddion Cennad.



Newynu i Gael Rhoi – Cymorth Cristnogol Tudalen 3

Neges Heddwch ac Ewyllys Da Tudalen 4

O Gefn Gwlad Tudalen 7

Wedi'r Pasg yng Nghaernarfon

Ys gwn i a oes wyau Pasg ar ôl yn eich cartref erbyn hyn? Neu a wnaethant ddiflannu mor gyflym ag y cyrhaeddon nhw? Dyna'r drefn yn ein tŷ ni – tydi wyau siocled ddim yn para'n hir yma! A hithau'n fis Mai, mae'r Pasg yn dechrau teimlo'n bell iawn yn ôl erbyn hyn, yn dydy? Mae cymaint o gyffro a gweithgaredd wrth baratoi at y Pasg nes y gall y cyfnod sy'n dilyn deimlo ychydig yn 'wag' a difywyd. Mae'n debyg mai dyna sut roedd y disgyblion a dilynwyr Iesu yn teimlo wedi'r atgyfodiad a'r esgyniad, yndê?

Yr her i mi bob blwyddyn ydy dal gafael yng nghynwrf a gobaith y Pasg a cheisio fy ngorau i sicrhau fy mod yn cerdded gyda Christ y Pasg bob diwrnod o'r flwyddyn. Un peth sy'n fy helpu i wneud hyn ydy myfyrio ar weithgaredd y Pasg: y cyfarfodydd a'r gwasanaethau y cefais gyfle i fod yn rhan ohonyn nhw.

Wedi dau Basg gwahanol iawn yn ystod y pandemig, roedd rhyw gyffro ychwanegol eleni o gael cydgyfarfod a threfnu gweithgaredd cyhoeddus. Rhaid i mi gyfaddef i benwythnos y Pasg yng Nghaernarfon fod yn arbennig iawn i mi eleni. Cafwyd oedfa gymun undebol fore Gwener y Groglith a gorymdaith y Pasg i ddilyn. Criw bychan iawn ohonom oedd yn cerdded gyda'r groes i lawr Stryd Llyn eleni; ond er mai criw bach oedden ni, roedden ni yno – ac yn tystio'n gyhoeddus i ddigwyddiadau'r Groglith. Diolch i fy neiaint Deian ac Owain am ddod i helpu i gario'r groes – neu efallai y dylswn ddechrau eu galw yn Seimon o Gyrene a'i frawd!

Wedi cerdded i lawr Stryd Llyn, cafwyd cyfle o flaen Capel y Maes i rannu neges y Pasg gydag unrhyw un oedd yn pasio. Diolch i Llinos Mai Morris, llwyddwyd i ddod â gardd y Pasg i Faes Caernarfon. Er, rhaid dweud mai distaw iawn oedd y maes y bore hwnnw. Dwi'n amau fod pawb wedi mynd dramor eleni yn hytrach na dod yma ar eu gwyliau! Ond cafwyd cyfle i sgwrsio ag ambell un a rhannu wyau Pasg a nod llyfr gyda neges y Pasg cyn canu emyn a chydweddïo. Gyda'r nos cafwyd cyfle arall i fyfrio ar y groes dan arweiniad rhai o bobol ifanc Salem.

Ar fore Sul y Pasg roeddwn yn addoli yn Salem eto, a da oedd cael bod yno! Roedd fel petai mwy o fywyd yn y canu, a braf oedd gweld plant yr ysgol Sul yn y sedd fawr unwaith eto yn ein harwain yn eu cân o 'Haleliwia! ... Ewch ***â***'r newyddion da i'r byd, Iesu fu farw – cyfododd!' Braint hefyd oedd cael bod yn dyst i dderbyn pedwar o bobl ifanc yr eglwys – Gwydion, Wil, Gruff ac Alis – yn gyflawn aelodau. Ar ôl cinio, roeddwn yn addoli yn Noddfa (yr eglwys gymunedol ar Stad Ysgubor Goch. Unwaith eto, braf oedd cael cwmni rhai o blant a phobl ifanc Noddfa yn ein haddoliad llawen.

Mae'n hawdd digalonni y dyddiau hyn. Mae'r pandemig wedi gadael ei ôl ar ein heglwysi fel y mae wedi'i wneud ar bob rhan o gymdeithas. Bu cyfnodau tywyll iawn i nifer yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae llawer yn holi: 'Sut ydan ni'n ailafael mewn pethau a chymaint wedi newid? I ble rydan ni'n mynd o fan hyn?' Mae'n anodd ateb y cwestiynau hyn – onid oes cymaint o ansicrwydd yn parhau o'n cwmpas? Ond yr hyn sy'n bwysig ydy dal gafael yn yr hyn sydd **yn** sicr ac yn yr hyn y gallwn ei wneud – sef parhau i ymddiried yn Nuw a pharhau i gerdded drwy ein bywyd yng nghwmni Crist.

Cawn ein hatgoffa y byddwn yn byw gydag effaith y pandemig am beth amser eto. Ond yn union fel y mae gwanwyn wedi'r gaeaf a bore'r Pasg wedi Gwener y Groglith, yr hyn mae'r Pasg yn ein hannog i'w wneud yw byw mewn gobaith. Gallwn fyw mewn gobaith am ein bod yn gwybod fod Iesu wedi trechu marwolaeth, bod ei oleuni yn gryfach na'r tywyllwch, a hyd yn oed yn ein gwendid y cawn ein cynnal a'n hannog drwy ei Ysbryd i barhau â'n gwaith o fod yn dystion a disgyblion iddo. A dyna yw ein braint ni, heddiw yn 2022 yn ein cymunedau ar hyd a lled y wlad. Awn yn ein blaenau gan fynd â'r Pasg efo ni bob dydd.

Mererid Mair
Caernarfon

Gweithgaredd y Pasg ar y Maes

Yr hogiau yn cario'r groes i lawr Stryd Llyn

Y rhai gafodd eu derbyn yn Salem gyda'r gweinidogion

Golygfa'r Bedd Gwag ar y Maes

Newynu i Gael Rhoi

Cyflwyniad i'r Wythnos Cymorth Cristnogol

Efallai ichi gael cyfle eisoes i ymuno mewn gwasanaeth Cymorth Cristnogol. Gellir gweld ffilm sy'n rhan o'r gwasanaeth a dod i adnabod Janet a'i theulu – un o'r bobl ryfeddol y mae Cymorth Cristnogol yn eu cynorthwyo i ddarparu ar gyfer ei theulu. Mae Janet yn 70 oed a chanddi ddeg o blant, 28 o wyrion ac 8 o or-wyrion. Dilynwch y ddolen hon i lawrlwytho'r ffilm fer os gallwch. Mae hi'n werth ei gweld: https://www.christianaid.org.uk/ffilm Gymraeg

Yn y gwasanaeth sydd wedi ei baratoi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol eleni ac ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd, fe ystyrir be ydi byw bywyd ffrwythlon. Dyma ymadrodd gaiff ei ddefnyddio trwy'r Beibl. Mae dwyn ffrwyth sy'n dda ac sy'n parhau yn rhywbeth y cawn ein galw iddo fel dilynwyr Iesu.

Beth mae dwyn ffrwyth yn ei olygu yn y byd heddiw? Mewn byd ble mae 44 miliwn yn wynebu her ddyddiol prinder bwyd a newyn cronig, beth mae 'ffrwyth sy'n parhau' yn ei olygu i fywyd pob un ohonom?

Gan mai ffynhonnell o fywyd a chynhaliaeth felys yw ffrwyth, ni allwn ond ystyried her newyn. Rhaid hefyd ystyried y newid sy raid inni fod yn rhan ohono i sicrhau'r atebion.

Gwreiddir y syniadau hyn yn storïau Jessica a Janet o Zimbabwe. Zimbabwe gaiff sylw Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn gweithio yno er mwyn eu helpu i addasu eu dulliau amaethyddol. Mae Janet Zirugo yn fam-gu 70 oed ac wedi gweld ei bywyd yn cael ei drawsnewid gan y technegau newydd. Un peth yn benodol sydd wedi ei helpu yw'r hadau newydd y mae'n eu defnyddio erbyn hyn. Mae'r hadau hyn yn wydn iawn mewn cyfnodau sych a thrwy eu defnyddio gall Janet sicrhau cnydau da ar gyfer ei theulu. Mae wedi gallu troi ei thir sych a llychlyd yn ardd lawn llysiau lliwgar.

Mae lluniau Jessica a'i theulu i'w gweld ar yr amlenni Cymorth Cristnogol eleni gyda'r alwad inni ei helpu 'i droi newyn yn obaith'. Mae hi'n dyheu neu'n newynu mewn gwirionedd am gael cyfle i ddarparu digon o fwyd ar gyfer ei theulu.

Byddwn yn myfyrio ar y cwestiynau mawr hyn trwy eu profiad nhw o newyn gaiff ei achosi gan sychder.

Gadewch inni addoli a chanmol Duw ac ymbil arno i ddwyn cyfiawnder i'r tlawd a'r newynog, pobl fel Janet a Jessica, drwy gyfrwng y gweddïau hyn:

'Roedd coed y bywyd bob ochr i'r afon yn rhoi deuddeg cnwd o ffrwythau – cnwd newydd bob mis. Mae dail y coed yn iacháu'r cenhedloedd.'

(Datguddiad 22:2)

Gadewch inni ddod at yr afon
a bod fel y coed a blannwyd wrth ffrydiau dŵr,
gan osod ein gwreiddiau yn ddwfn yng ngair Duw,
yn dwyn ffrwyth da fydd yn parhau,
heb grino gan flinder, yn ymestyn i dderbyn
a bod yn ffynhonnell iachâd.
Amen.

Gweddi wrth ddod ynghyd

Greawdwr, Mab ac Ysbryd, ymgasglwn heddiw,
ar lein neu yn gorfforol i geisio dy bresenoldeb
yn ein hamser o addoliad.

RYDYM YN NEWYNU AMDANAT TI

Tyrd i'n cyfarfod yn ein hangen. Cysyllta ni gydag anghenion eraill.

Arfoga ni i ymuno yn dy waith creadigol. Trawsnewidia ni i fod yn debycach i ti.

RYDYM YN NEWYNU AM DY GYFIAWNDER

Ymgasglwn gyda Jessica a Janet
a'u cymunedau yn Zimbabwe yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon.
Bydded i'w storïau ein gwneud yn newynog am gyfiawnder
ac yn fwy diamynedd am newid.

RYDYM YN NEWYNU AM DY GYFIAWNDER

Ymgasglwn gyda'r holl greadigaeth; gyda'r mynyddoedd a'r bryniau.

Byddwn yn bloeddio canu, gyda choed y maes, byddwn yn curo ein dwylo.

RYDYM YN NEWYNU I DY FOLI DI

AMEN.

Amlen Cymorth Cristnogol eleni sy'n rhoi sylw i Jessica a'i theulu yn Zimbabwe

Gweddi o alarnad

Sefydla gwaith dy ddwylo, O Dduw,
GALWN ARNAT TI, DDUW'R GREADIGAETH
yn ffyddlon tuag atom ger coed Eden,
GALWN ARNAT TI, DDUW ACHUBIAETH
yn ffyddlon tuag atom ar bren Calfaria;
GALWN ARNAT TI, DDUW'R CYFLAWNIAD
yn ffyddlon tuag atom yn iachâd pren y bywyd
Dy bobl ydym, O Dduw,
o strydoedd dy ddinas,
o afon y bywyd,
o'th orsedd yn y nef,
ATEB NI'N AWR
mewn geiriau grymus
a gweithredoedd cadarn. Llefara wrth ein cri 'am ba hyd'.
Am ba hyd y bydd boliau'r plant yn wag?
Am ba hyd y bydd eu mamau'n gweddïo'n ofer?
Am ba hyd y bydd y tymheredd yn codi y tu hwnt i record?
Am ba hyd y bydd y cymylau yn peidio rhoi glaw?
Am ba hyd y bydd y caeau'n troi'n llwch?
Am ba hyd y bydd llifogydd yn aros dros y tir? Am ba hyd y bydd ychydig yn byw gyda gormod? Am ba hyd y bydd gormod yn derbyn ychydig?
Am ba hyd raid disgwyl am iachâd y cenhedloedd?
Am ba hyd y bydd anghyfiawnder a dioddefaint yn aros?
Ond nef, gwyddom, ein gwneuthuriad ni yw hyn;
ein bychod dihangol, ein halibi,
maent i gyd yn gwybod y gwir:
Mae ein pwyntio bys a'n gweddïau 'am ba hyd' ni yn atsain yn ôl at ein duwioldeb ac yn mynnu ateb.

AM BA HYD, AM BA HYD?

Am ba hyd y bydd difaterwch, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder yn atal tosturi, iachâd a llawnder bywyd?
Tyrd a thyrd yn fuan, Arglwydd, gad i'r bobloedd lawenhau.
O Eden i Galfaria, o'r nef i'r ddaear.
Coda pob llais i ganu, 'Amen!' Sefydla gwaith ein dwylo.

Urdd 100 1922 - 2022

Neges Heddwch ac Ewyllys Da
Peace and Goodwill Message

Yr Argyfwng Hinsawdd

Mae'r cloc yn ticio
Ac mae'n byd ni ar dân.
Mae'n amser deffro.

Llifogydd, tanau, newyn, a thlodi,
dyma ein realiti ni.

Mudo, gwrthdaro, dadleoli,
ai dyma ein dyfodol ni?

Pam ein bod ni'n dal i wrando
ar bla bla bla'r rhai mewn pŵer?

Pam ein bod ni'n dal i gredu
y gallwn brynu ein ffordd allan?

Mae'n amser deffro.
Mae'n amser addo i newid.

Fedrwn ni ddim cario 'mlaen fel hyn.
Mae gennym ni'r fraint i arafu,
i leihau ein defnydd,
i feddwl.
i stopio'r cynnydd.

Achos nid ni fydd yn dioddef yn gyntaf.
Felly dyma ein haddewid
i newid ein ffordd o fyw
a galw am newid systemig
er mwyn y rheiny yng ngwledydd y De Byd-eang.
Er mwyn dyfodol ein cartref.

Dechreuwn wrth ein traed
gan wneud y pethau bychain
A rhown bwysau ar gwmnïau a gwleidyddion
i wneud y pethau mawr.

Dyma'n haddewid ni.
Beth yw dy addewid di?
Mae'n amser deffro.

Cymerwch ran ar 18 Mai 2022:

Rhannwch ein Neges Heddwch ac Ewyllys Da ar yr Argyfwng Hinsawdd a fydd yn ymddangos fel pinned post ar @Urdd Twitter, gan ddefnyddio:

#Heddwch100
#ArgyfwngHinsawdd
#ClimateEmergency

Diolch am eich cefnogaeth.

heddwch@urdd.org
www.urdd.cymru/heddwch

@Urdd
Urdd Goabith Cymru
@urddgobaithcymru

Wedi ei gefnogi gan y British Council a Llywodraeth Cymru

O'r Llwyfan

Cyngor Unedig UBC: Cynhaliwyd Cyfarfod Unedig Cyngor UBC drwy gyfrwng Zoom nos Fercher, 23 Mawrth 2022. Yn ogystal â derbyn adroddiadau'r Pwyllgorau a'r Byrddau cymeradwyd Mr Bill Davies, Caerdydd (Yr Adran Gymraeg) a'r Parch. Tim Moody, Rhisga (yr Adran ddi-Gymraeg) fel y darpar Is-lywyddion.

Statws Elusennol UBC: Mae cais bellach wedi cael ei gyflwyno gerbron y Comisiwn Elusennau i gofrestru'r Undeb fel Corff Elusennol Corfforedig. Un o fanteision hyn fydd lleihau atebolrwydd personol yr Ymddiriedolwyr.

Adolygiad Cyffredinol Cyfnodol y Cenhedloedd Unedig (Universal Periodic Review of the United Nations): Cawsom wahoddiad gan Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop i gyfrannu tuag at Adolygiad Cyffredinol Cyfnodol y Cenhedloedd Unedig. Mae'r adolygiad hwn yn digwydd pob pedair blynedd ac yn gyfle i ystyried y modd y mae gwledydd y Cenhedloedd Unedig yn ymateb i iawnderau dynol. Pwrpas yr adolygiad yw ceisio gwella sefyllfaoedd iawnderau dynol ym mhob gwlad ac i fynd i'r afael ag unrhyw ymyriadau sydd yn digwydd. Mawr yw ein dyled i'r Parch. Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, am ei gyngor a'i arweiniad. Gwelir y ddogfen ar ein gwefan: www.ubc.cymru.

Encil Gweinidogaethol: Cynhaliwyd dau encil ar gyfer ein gweinidogion yn ddiweddar, y naill ar gyfer yr Adran Gymraeg a'r llall ar gyfer yr Adran ddi-Gymraeg. Diolch i'r Parchedigion Ddr Rhys Llwyd, Dr Densil Morgan, Dr Helen Paynter ac Andy Percy am eu harweiniad.

Gweinidogion: Estynnwn ein llongyfarchiadau gwresocaf i'r Parchedig Rob Nicholls, Eglwys Gymraeg Canol Llundain, a'r Parchedig Michele Romaniw, Caplan Cyswllt, Prifysgol De Cymru, ar gwblhau eu cyfnodau prawf yn llwyddiannus.

Cod Ymddygiad ar gyfer Gweinidogion: Dros y misoedd diwethaf cynhaliwyd Gweithgor Tasg a Gorffen i ddatblygu Cod Ymddygiad ar gyfer Gweinidogion UBC. Rydym bellach wedi ymgynghori yn eang ac wedi derbyn adborth cadarnhaol ac adeiladol. Bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyflwyno gerbron Bwrdd y Weinidogaeth yn ddiweddarach eleni.

Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Genhadol y Senana: Hyfrydwch oedd cael bod yn bresennol yng Nghyfarfod Blynyddol Cymdeithas Genhadol y Senana ddydd Mercher, 4 Mai 2022, yng Nghaersalem, Cilgwyn, Trefdraeth. Dyma'r tro cyntaf i'r oedfa gael ei chynnal ers cyfnod Covid-19 a daeth cynulleidfa dda ynghyd o bob rhan o Gymru i gefnogi'r achlysur. Diolch i'r Cyn-lywydd, Mrs Anne Lapage, Cymanfa Dinbych, Fflint a Meirion, am ei gwaith dros gyfnod estynedig a dymunwn yn dda i'r Llywydd newydd, Mrs Bonni Davies, Cymanfa Penfro a'r Is-lywydd, Dr Menna Machreth, Cymanfa Arfon.

Mrs Bonni Davies

Cynhadledd Flynyddol: Edrychwn ymlaen at y Gynhadledd Flynyddol a gynhelir yng Nghanolfan Halliwell, Prifysgol y Drindod Dewi Sant, ddydd Gwener a dydd Sadwrn, 24 a 25 Mehefin. Mae modd archebu tocynnau ar lein neu drwy'r post. Ewch i www.ubc.cymru/cynhadledd-2022/ neu cysylltwch â'r swyddfa ar 0345 222 1514.

Dymuniadau Gorau: Ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru, hoffwn ddymuno'n dda i'r Parchedig Meirion Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ar ei ymddeoliad ddiwedd Mehefin eleni ac i ddiolch yn gywir iawn iddo am y cydweithio hwylus dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ddi-os, byddwn yn gweld eisiau ei gwmni difyr, ei sylwadau craff a'i gyfraniad adeiladol i'r gwaith cydenwadol. Pob bendith ar gyfer y dyfodol.

Judith Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb y Bedyddwyr

Cydymdeimlo

Dymunwn fel golygyddion a darllenwyr *Cenn@d* estyn ein cydymdeimlad diffuant â'r Parch. Judith Morris yn ei phrofedigaeth ddiweddar o golli ei mam, Mrs Margaret Eileen Flook. Wrth estyn ein cydymdeimlad iddi cofiwn hefyd am ei chwaer, Susan, a'r teulu estynedig. Gweddïwn y cewch brofi'r 'hedd na ŵyr y byd amdano'. **Gol.**

Y Bedyddwyr yn cyhoeddi adroddiad yn dilyn Adolygiad o Hawliau Dynol ym Mhrydain

Mae Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr a Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop ynghyd ag Undeb Bedyddwyr Cymru yn falch o gyflwyno adroddiad ar y cyd ynglŷn â'r sefyllfa o ran hawliau dynol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r adroddiad yn rhoi sylw arbennig i sefyllfa rhyddid crefydd neu gred yng Nghymru a Lloegr.

Mae gan Fedyddwyr draddodiad hir o amddiffyn rhyddid crefydd neu gred, gan ddechrau dros 400 mlynedd yn ôl gyda galwad Thomas Helyws yn 1612 o blaid rhyddid crefydd i bawb. Ynghyd â'n hymrwymiad i ryddid crefydd neu gred, mae'r Bedyddwyr wedi ymrwymo i gydnabod ac amddiffyn hawliau dynol yn eu ffurfiau sifil, gwleidyddol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae hawliau dynol o reidrwydd yn gydgysylltiedig ac, er bod yr adroddiad hwn yn rhoi ffocws penodol i faterion a chwestiynau rhyddid crefydd neu gred yn y Deyrnas Unedig, rydym yn cadarnhau na ellir gwahanu nac ynysu'r hawl hon o'r ystod lawn o hawliau dynol. Felly, mae rhai materion sy'n ymwneud â rhyddid mynegiant, rhyddid i symud a'r hawl i loches o reidrwydd yn derbyn sylw yn yr adroddiad, gan ddangos dull adeiladol o ran rhyddid crefydd neu gred a hawliau dynol yn y Deyrnas Unedig. Wrth nodi problemau a phroblemau posibl, ein nod yw chwarae rôl trwy nodi a, lle bo hynny'n bosibl, cyfrannu at ddatrysiadau. Ein hamcan felly yw gweithio'n gydweithredol ac yn adeiladol gyda'n llywodraethau cenedlaethol a datganoledig a hefyd ein cymunedau i hyrwyddo achos rhyddid crefydd neu gred i bawb.

Yn y cyd-destun hwn y mae'r Adolygiad Cyffredinol yn gyfle i rannu gwybodaeth a syniadau gyda'r gymuned ryngwladol ynghylch sefyllfa rhyddid crefydd neu gred yn y Deyrnas Unedig drwy broses sylweddol ar y llwyfan rhyngwladol sy'n cynnal atebolrwydd cydfuddiannol mewn perthynas â hawliau dynol. Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at yr Adolygiad drwy rannu materion thematig mewn adrannau unigol. Mae Adran 1 yn mynd i'r afael â diwygiadau hawliau dynol a arweinir gan Weinyddiaeth Gyfiawnder y Deyrnas Unedig a gynhwysir yn y Bil Hawliau Modern; mae Adran 2 yn mynd i'r afael â materion rhyddid crefydd posibl yn y ddeddfwriaeth arfaethedig ar Ddyletswydd Diogelu; mae Adran 3 yn mynd i'r afael â materion gwrth-semitiaeth ac Islamoffobia yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig; mae Adran 4 yn trafod pryderon posibl am FORB sy'n deillio o'r cyfyngiadau arfaethedig ar Therapi Trosi ('Conversion Therapy'); mae Adran 5 yn ymdrin â phryderon hawliau dynol ehangach sy'n gysylltiedig â'r Mesur Cenedligrwydd a Ffiniau sy'n mynd drwy Senedd San Steffan ar hyn o bryd; ac, yn olaf, mae Adran 6 yn nodi geiriad ar gyfer cyfres o Argymhellion UPR posibl ar gyfer y Deyrnas Unedig yn y 41ain Cylch o'r Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol sydd ar y gweill.

Gallwch ddarllen yr adroddiad hwn yn llawn ar wefan Undeb Bedyddwyr Cymru

Efengylu – baich neu fraint?

Darllen: 2 Corinthiaid 5:16–6:2

Mae gan bawb farn wahanol pan mae'n dod i efengylu. Mae rhai'n meddwl bod ffydd yn rhywbeth preifat iawn, ac na ddylai unrhyw un geisio dylanwadu ar beth mae rhywun arall yn ei gredu. Weithiau, pan fydd rhywun yn trafod efengylu o fewn yr eglwys, bydd rhai gwrandawyr yn colli diddordeb am mai "rhywbeth i bobl eraill yw hwnna". Mae'r agweddau yma'n ddealladwy os nad ydym yn deall beth mae'r Gair yn dweud am y pwnc. Y gwir yw fod gennym i gyd gyfrifoldeb i efengylu – ond beth mae hynny'n ei olygu? Dwi'n hoffi meddwl am efengylu fel rhannu'r newyddion da am yr hyn mae Iesu wedi'i gyflawni trwy farw ar y groes, a hefyd rhannu gydag eraill am ei gariad anhygoel. I mi, yn fwy nag unrhyw beth, mae efengylu'n golygu caru eraill fel mae Iesu'n eu caru, a chynnig cyfle i bobl gael perthynas gydag Iesu ei hun.

O'n i arfer bod ag ofn siarad gyda phobl am Iesu, ond ar ôl gwneud penderfyniad i gamu allan, un cam ar y tro, fe wnaeth Duw lenwi fy nghalon â chariad tuag at bobl oedd ddim yn ei adnabod. Ers hynny, dwi wedi bod ar daith o dyfu mewn hyder. Dwi ddim am i neb golli allan ar ei adnabod ef! Mae gweld pobl yn dod i adnabod Iesu a phrofi ei gariad am y tro cyntaf yn fy ngwneud i mor llawen.

Mae'r cyfrifoldeb i efengylu arnom ni i gyd: "Dŷn ni'n llysgenhadon yn cynrychioli'r Meseia, ac mae Duw yn anfon ei apêl allan trwon ni. Ar ran y Meseia, dŷn ni'n crefu arnoch chi: Dewch i berthynas newydd gyda Duw!" (2 Corinthiaid 5:20)

Mae'r adnod yma'n disgrifio nid yn unig yr Apostol Paul, ond pobl Dduw i gyd. Dyma pwy ydyn ni. Felly, dydyn ni ddim yn gallu dweud, "Dyw efengylu ddim i fi!" Mae'n rhan o'n bywydau ni fel Cristnogion. Am antur! Am fraint i allu sôn am yr Arglwydd a'i gynrychioli. Ddylai efengylu ddim teimlo fel baich arnom ni, ond fel antur i fynd arni gyda help yr Arglwydd. Ac mae'n wir ei fod yn ein helpu ni, un cam ar y tro (Actau 1:8). Dyma rai o'r prif bethau mae Duw wedi fy nysgu ar y daith yma o efengylu:

1. Gweddïo

Dyma'r man cychwyn i bob peth! Cyn dechrau ar unrhyw antur gydag Iesu, mae'n syniad da gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud hynny gydag ef, trwyddo ef ac iddo ef. Gweddi yw'r ffordd i'n galluogi ni i wneud hyn. Hefyd, trwy weddi rydyn ni'n ennill brwydrau yn y byd ysbrydol sy'n agor drysau i gyfleoedd yn y byd naturiol. Rydym eisiau gweld drysau agored i Iesu yn ein trefi ac yng nghalonnau pobl.

Felly, mae'n bwysig gofyn i'r Arglwydd am gyfleoedd i rannu ei gariad a gofyn am bobl benodol i ddod i'w adnabod.

2. Gwrando

Yna, rhaid i ni wrando ar yr Arglwydd oherwydd bydd ef yn ein harwain at bobl benodol. Dwi wedi dysgu talu sylw pan mae gwahanol bobl yn dod i'r meddwl. Dwi wedi dysgu gweddïo drostyn nhw ac anfon neges atyn nhw i ddweud fy mod yn meddwl amdanyn nhw ac yn gweddïo drostyn nhw – dyma enghraifft o sut mae rhannu cariad Duw gyda rhywun. Yn aml, bydd Duw yn gweithio ym mywyd y person yna ar y pryd, ac yn rhoi'r fraint i ni gael bod yn rhan o beth mae'n ei wneud.

Rydym yn gallu edrych ar y 'cynhaeaf' (Luc 10:2, Mathew 9:37–8) fel cae mawr o wenith, ac mae'n hawdd meddwl ei fod yn bell i ffwrdd. Ond, mae Duw yn aml yn ein harwain ni at bobl o'n hamgylch, y 'gwenith' sydd o'n cwmpas, wrth ein traed – cymdogion rydyn ni wedi eu hadnabod ers blynyddoedd, efallai, ond heb sôn am gariad Duw gyda nhw, neu efallai ein teulu, neu ffrindiau agos. Rhaid i ni wrando ar lais Duw a thalu sylw os bydd pobl benodol yn dod i'r meddwl.

Mae gwrando ar bobl hefyd yn bwysig am fod hyn yn dangos cariad Duw. Mae pobl yn cofio mwy am y ffordd rydym yn gwneud iddyn nhw deimlo na'r geiriau rydym yn eu dweud, ac ambell waith mae gwrando yn llawer iawn mwy pwerus na phregethu wrth bobl. Rhoddodd Duw ddwy glust i ni ac un geg, nid dwy geg ac un glust! Felly, mae'n syniad da i ni ymarfer gwrando mwy na siarad!

Un peth arall, ar ôl gwrando ar bobl a chymryd gwir ddiddordeb yn y pethau maen nhw'n eu rhannu, dwi'n mwynhau cynnig gweddïo drostyn nhw a gwahodd Duw i'w helpu yn eu bywydau, naill ai y foment honno, neu jyst esbonio'i fod yn rhywbeth y bydda i'n ei wneud yn fy amser fy hun. Dyma ffordd arall o ddangos cariad Duw.

3. Gwahodd

Y trydydd cam yw gwahodd pobl i dreulio amser gyda thi a gwneud rhywbeth rydych chi'n ei fwynhau, mynd am dro neu am goffi, efallai. Ymhen amser, ac os ydych chi'n teimlo'n gyfforddus, yn enwedig os ydyn nhw'n gofyn, gallwch rannu â nhw faint mae Iesu yn ei olygu i chi a beth mae'ch ffydd a'ch perthynas gydag Iesu yn debyg yn eich bywyd chi. Wedyn, ar yr amser iawn, gellir eu gwahodd nhw i ddod i'r cwrdd yn yr eglwys gyda chi er mwyn clywed mwy am Iesu. Mae adeiladu perthynas gyda rhywun yn ffordd o ddangos cariad a bod bywyd y person yna'n bwysig iawn i Dduw. Wrth gwrs, mae'n bwysig bod ein cariad tuag at y person yn ddiffuant a'n bod ni'n eu caru nhw drwy lygaid a chalon yr Arglwydd – mae Duw yn barod iawn i'n helpu gyda hyn pan fyddwn ni'n gofyn.

4. Gofyn

Yn olaf, ar ôl gweddïo dros bobl benodol, treulio amser gyda nhw, gwrando arnyn nhw a dangos beth mae'ch perthynas chi gydag Iesu yn ei olygu i chi, bydd amser yn dod pan fydd yn teimlo'n iawn i ofyn y cwestiwn, "Hoffet ti roi dy fywyd di i Iesu? Hoffet ti fyw iddo ef, bod mewn perthynas gydag ef a derbyn beth mae wedi'i wneud drosot ti?" Wedyn, os bydd yn addas, arwain nhw mewn gweddi o ymateb iddo ef. Mae 'tracts' yn dda i helpu gyda hyn ac maen nhw'n cynnwys gweddi er mwyn arwain pobl at Iesu. Edrychwch ar wefan www.The4points.com i brynu tracts yn y Gymraeg.

Mae Duw eisiau'ch defnyddio chi fel llysgennad yn eich cymuned. Ie, CHI! Felly, pwy wnei di ddechrau gweddïo drosto neu drosti heddiw sydd ddim yn adnabod yr Arglwydd? I ble fyddi di'n eu gwahodd nhw? A chofia wrando'n astud arnynt a gofyn iddynt ar yr amser iawn, "Hoffet ti roi dy fywyd di i Iesu?"

Lydia Power
Cydweli

(Anerchiad a draddodwyd yng Ngŵyl Llanw yn Aberystwyth wedi'r Pasg)

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 22 Mai, am 7.30yh (ailddarlledir am 11:30yb y Sul canlynol)
Yr wythnos yma byddwn yn Aberteifi. Bydd Ryland yn ymweld ag Eglwys y Grog, Mwnt, i glywed am y gobaith wedi'r difrod yn yr eglwys. Cawn berfformiad gan gôr Ar ôl Tri, a daw'r canu mawl o Gapel Mair, Aberteifi, o dan arweiniad Rhys Griffiths.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 22 Mai, am 7:30yb a 2.00yp
Ralph Vaughan Williams a Lowell Mason – dau gyfansoddwr sydd dan sylw gan Euros Rhys Evans: y naill, Ralph Vaughan Williams, wedi ei eni gan mlynedd a hanner yn ôl ym 1872, a'r llall, Lowell Mason, yn marw yn yr un flwyddyn.

Oedfa Radio Cymru
Sul, 22 Mai, am 12:00yp
Gwasanaeth dan ofal Ariadne van den Hof, Shooter's Hill, Llundain

O Gefn Gwlad

Grymoedd

Dau o brif rymoedd ein byw a'n bod yw grym natur a grym y natur ddynol, ac y maent wedi gorfod cyd-dynnu a chyd-fyw ar hyd y canrifoedd. Wedi'r cyfan, fe gawsom y byd i'w reoli a'i warchod: 'Gosodaist bob peth dan ei draed,' meddai Llyfr y Salmau wrth holi beth yw dyn i Dduw ei gofio. Bellach, fodd bynnag, aeth unrhyw gyd-fyw rhwng y grymoedd hyn yn wrthdaro rhyngddynt, a dyna wraidd llawer o'n problemau.

Bu adeg pan blygem yn ddi-feth i rym natur gan na allwn yn wir ei goncro. A nodi enghraifft syml: oni bai ein bod yn derbyn ac yn parchu natur wrth arddio neu ffermio, methiant fydd ein hymdrechion. Ceisiwch dyfu ffa dringo yn y gaeaf ac mi fyddan nhw wedi rhewi mewn dim o dro. Dyna'r ffaith, ac y mae ffeithiau fel yna yn treiddio trwy'r bywyd sydd o'n cwmpas a'n bywydau ninnau. Cydymddwyn â grym natur yw'r unig ffordd i fyw a goroesi, nid ceisio'i ymladd.

Ond mae grym arall yn rheoli ein bywydau hefyd, sef grym materoliaeth a busnes. Cawsom ein cyflyru ganddo ers ein plentyndod; y mae wrthi'n gweithio bob munud awr, ac yn dwysáu ei ymdrechion ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Y mae ar ei fwyaf miniog a phwrpasol yn ystod tymor y Nadolig. Grym ydyw i wneud inni chwennych rhagor o hyd, faint bynnag sydd gennym. Ac y mae'n rym sy'n llwyddo bron yn ddi-feth, gan ei fod yn adnabod y natur ddynol, ac yn gwybod yn union sut i'w bodloni.

Y mae yna yn ein plith bobol nad oes ganddyn nhw ddigon. Y mae llawer ohonom hefyd sydd â digon, a llaweroedd â mwy na digon. I'r rhai nad oes ganddyn nhw ond y lleiafswm llwm, mae'n rym anfoesol, gan ei fod yn eu gorfodi bron i chwennych pethau na allant eu fforddio. I ni sydd â digon, mae'n rym y dylem fedru ei wrthwynebu'n hawdd. Ond fedrwn ni ddim, gan ei fod yn deall y natur ddynol. Dyna pam y defnyddiwn fwy o drydan nag sydd ei angen arnom, mwy o ddŵr, mwy o fwyd, mwy o bopeth materol, yn wir. Bron nad ydym yn byw i chwennych y peth nesaf.

'Tipyn bach mwy bob dydd', ie, a hynny o bopeth, yw tuedd gyffredin y natur ddynol. A hynny yn bennaf roes fod i dlodi'r trydydd byd, ac i'r anghyfartaledd dybryd sydd ynddo. Hynny yn sylfaenol roes fod i ymerodraethau'r byd, gan gynnwys yr Ymerodraeth Brydeinig a greodd lawer o'r tlodi, gan fod teyrnasoedd daear hefyd yn adlewyrchu dyheadau'r unigolyn. Ac mae'n bod o hyd. Y mae'r Saeson a rhai Cymry hefyd yn dal i ddatgan: 'God who made thee mighty, / make thee mightier still' pan fyddant yn canu 'Land of Hope and Glory' mewn seremonïau. A dyna yn y bôn ddyhead pob cenedl.

Ac i ni yma bu popeth yn iawn tra oedd grymoedd natur a grymoedd y natur ddynol a byd busnes yn gallu cyd-fyw yn weddol.

Nid felly bellach. Cafodd natur ddigon ar gael ei hecsploetio ac y mae'n taro'n ôl gyda holl nerth ei bodolaeth: yn wres, yn wyntoedd, yn llifogydd, yn donnau'r môr, yn dannau, yn stormydd enbyd.

Do, daeth cynhesu byd-eang i styrbio ein bywydau bach cysurus, a hynny yn holl genhedloedd daear. Y cyfoethog a'r tlawd yn dioddef, a'r tlawd, fel bob amser, yn dioddef fwyaf. Buom yn hwsmoniaid rhy wael ac esgeulus ar ein hetifeddiaeth, ac yn hunanol y tu hwnt i eiriau – yn tynnu ar y greadigaeth fel tase'i hadnoddau'n ddihysbydd. A gwnaethom hyn am fod byd busnes ac elw wedi harneisio ein dyheadau a'n hawydd i feddiannu popeth a allwn, a chael bywyd braf yn helaethwych beunydd.

Dim rhagor! Yr ydym yn prysur greu uffern ar y ddaear, nid i ni ein hunain yn gymaint ag i'n plant, ac yn bendant i blant ein plant a chenedlaethau sydd eto heb eu geni. Sut y bydd hi yma mewn hanner can mlynedd, mewn can mlynedd?

Oes gan yr efengyl ateb? Neu ai hwn yw dialedd Duw y sonnir mor aml amdano yn yr Hen Destament ac a goleddir gan lawer?

Beth allwn ni ei wneud? Rwyf yn diffodd pob dim trydanol nad wyf ei angen yn ystod y nos ers tro bellach; rwy'n teithio llai yn y car nag y byddwn, a dwi ddim yn mynd dros y môr ar wyliau erbyn hyn.

Ond a yw hyn yn rhywbeth mwy na lleddfu cydwybod, tybed? Y tristwch yw nad yw hyn oll yn ddim tra mae ffatrïoedd mawrion yn arllwys eu gwenwyn yn ddyddiol i'r awyr, yn y bôn o achos ein hunanoldeb anhygoel ni.

Beth yw'r ateb? Wn i ddim. Dim ond dyheu, neu weddïo falle, nad yw'n rhy hwyr i ddau rym cryfaf ein bod, natur a'r natur ddynol, gydweithio a chyd-dynnu i achub ein planed a phawb sy'n bodoli arni. Ym môr fy esgyrn rwy'n teimlo'i bod eisoes yn rhy hwyr. Er mwyn cenedlaethau'r dyfodol, gobeithio mod i'n rong.

Elfyn Pritchard

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Llewyrch dy wyneb – addewid a chyflawniad

Emyn 39: 'O caned pawb'

Gweddi

Gogoniant i'r Tad a'n creodd, gogoniant i'r Mab a'n prynodd, gogoniant i'r Ysbryd Sanctaidd a'n sancteiddiodd; gogoniant i'r goruchaf Drindod anwahanadwy, gwaith yr hwn sydd yn anwahanadwy, a'i deyrnas sydd heb ddiwedd, yn aros, o oes i oes, byth bythoedd, Amen. (*Awstin*)

Darllen: Salm 37 – 'Dyhead am lewyrch'

Cywilydd a gwên

Gall diwrnod cynnes, gobeithiol, yn y gwanwyn droi'n ddiwrnod oer mewn eiliadau, dim ond i wyneb yr haul gael ei guddio gan gwmwl bygythiol.

Peth ofnadwy yw troi ein hwynebau oddi wrth gyfaill neu deulu. Cuddiwn, neu trown ein hwynebau i gyfeiriad arall, os ydym yn ceisio cuddio cywilydd, neu embaras, neu ymdeimlad o euogrwydd. Ond pan fydd bobl oedd wedi ymddieithrio'n cael eu cymodi â'i gilydd, daw'n bosib i ni fedru edrych drachefn ar wyneb yr un yr ydym wedi troseddu yn ei erbyn.

Cuddio

Yn yr ysgrythurau Iddewig mae'r darlun o Dduw yn 'cuddio'i wyneb' yn arwyddo dieithrwch a barn. Cwynodd Job fod yr Arglwydd yn cuddio'i wyneb ac 'yn f'ystyried yn elyn' (Job 13:24). Yn y Salmau mae colli 'wyneb' yr Arglwydd yn awgrymu bod 'adfyd a gorthrwm' yn dod i'n rhan a'n bod yn angof (Salm 44:2) neu hyd yn oed ein bod wedi ein gwrthod ganddo (Salm 88:14).

Llewyrchu

Ond y mae llewyrch ei wyneb, fodd bynnag, yn cynrychioli trugaredd a gwaredigaeth yr Arglwydd (Salm 31:16; 80:3). Ac fel y gwelwn o'n darlleniad, mae llewyrch wyneb yr Arglwydd yn arwydd o'i drugaredd, ei fendith a'i bresenoldeb.

Rhaid bod mewn perthynas agos i syllu ar wyneb un a garwn.

Mae dyhead y Salmydd yn tanio gweledigaeth. Nid profiad 'preifat' mo'r profiad personol o lewyrch a bendith Duw; mae'n fyd-eang ei gyrhaeddiad.

Cyhoedda'r Salmydd ddwywaith ehangder ei weledigaeth a dyfnder ei ddyhead am gael profi bendith Duw. Mae'n dyheu am lewyrch wyneb yr Arglwydd 'er mwyn i'w ffyrdd fod yn wybyddus, a'i waredigaeth yn hysbys i'r holl bobloedd, ym mhob cenedl' (adn. 3, 5).

Yn wir, pan fendithia'r Arglwydd ei bobl, ei eglwys, gyda 'llewyrch ei wyneb', bydd effeithiau iachusol yn lledu. Bydd y 'cenhedloedd' yn llawenhau ac yn gorfoleddu yn sgil llewyrch ei wyneb ar ei bobl. Bydd cyfiawnder a barn yn teyrnasu, a chenhedloedd y ddaear yn cael eu harwain ganddo, ac fe ddaw bobl o bellteroedd byd i'w 'ofni'. Bydd y ddaear ei hun yn cael ei hiacháu, a chnydau a chynaeafau'n doreithiog

Beth am ddarllen y salm yr eildro a'i gwneud yn weddi ar ran ein cynulleidfa ac ar ran y byd?

Darllen: Actau 16:9–15 – 'Arwydd o lewyrch'

Yn ein hail ddarlleniad gwelwn effeithiau 'llewyrch' wyneb yr Arglwydd ar weinidogaeth yr eglwys, ac ar ryw olwg mae hanes Llyfr yr Actau ar ei hyd yn tystio i gyflawniad y weddi a welwyd yn Salm 37. Mae hanes tröedigaeth Lydia hefyd yn arwyddocaol i ni am ei fod yn ein cyfeirio at hanes sefydlu'r eglwys gyntaf yn Ewrop gan yr Apostol Paul. Ac nid yw'n ddibwys gennym, o edrych ar fapiau heddiw, sylweddoli bod Lydia, y wraig fusnes llwyddiannus, yn hanu o Thyatira yn Nhwrci.

Dal gafael

Fel un oedd 'yn addoli Duw' roedd Lydia yn agored i wrando ar eiriau'r efengyl. Ond fel y gwelsom yn achos Cornelius yr wythnos diwethaf, yr Ysbryd Glân yn gweithio ar y 'gair' sy'n creu'r ffrwydrad byw yr ydym ni'n ei alw'n 'argyhoeddiad' ac yn 'ffydd'. Llewyrch wyneb yr Arglwydd yw hyn. 'Agorodd' yr Arglwydd galon gaeedig. Gwnaeth hyn wrth i seiniau llafar geiriau Paul ddod yn realiti ym mhrofiad Lydia. Daliodd ar y gair a daeth yn air byw, personol, real. Drwy ffydd, datganodd ei hawydd i gael ei bedyddio – hi a'i theulu cyfan. Ac arwydd ymarferol cyntaf y bywyd newydd, yn achos Lydia, oedd ei bod yn dangos lletygarwch neilltuol i Paul a Timotheus ac i Luc ei hun.

Emyn 604: 'Mae eglwys Dduw fel dinas wych'

Darllen: Datguddiad 21:10–11a, 22–22:5 – 'Disgleirdeb y llewyrch'

Yn nisgleirdeb perffeithrwydd cyflawn y nef, a phopeth drwg wedi ei ddifetha am byth, mewn daear newydd a nef newydd bydd dinas berffaith, Jerwsalem newydd, yn disgyn oddi wrth Dduw. Nid cynnyrch gallu na chlyfrwch daearol mo'r ddinas hardd. Nid am Iwtopia y gweddïa'r Cristion. 'Deled dy deyrnas' yw ein dyhead dyddiol.

Yn y ddinas nefol nid oes angen teml gan fod yr Arglwydd ei hun yn ei goleuo. Y mae ei ogoniant yn llewyrchu, ei bresenoldeb yn oll yn oll, a phopeth difaol sy'n perthyn i'r tywyllwch wedi ei ddifa. Yma mae'r hyn y bu cenedlaethau a chenhedloedd lawer yn breuddwydio amdano wedi dod yn ei gyflawnder: 'cânt weld ei wyneb, a bydd ei enw ar eu talcennau. Ni bydd nos mwyach, ac ni bydd arnynt angen na golau lamp na golau haul, oherwydd bydd yr Arglwydd Dduw yn eu goleuo, a byddant hwy'n teyrnasu byth bythoedd.'

Yng ngoleuni dyhead y Salmydd, profiad Llyfr yr Actau a'r addewid a gyhoeddir yn Llyfr y Datguddiad, gwelwn pa mor bitw mewn gwirionedd yw ein gweledigaeth, ein profiad a'n disgwyliad ninnau fel cynulleidfaoedd yng Nghymru. Prin yw olion 'llewyrch' yn ein sefydliadau crefyddol. Prin yw'n disgwyliad wrth i ni droi i bob pwrpas ymarferol yn ddeïstiaid. Pa werth disgwyl am ymyrraeth ddwyfol os ydym yn byw mewn byd mecanyddol? Lle na fyddo gallu'r Arglwydd ar waith, rhaid dibynnu ar allu pitw, meidrol, sy'n annigonol ac yn analluog i wynebu'r byd a'i heriau.

Wrth edrych ar ddarlleniadau heddiw, sylweddolwn mai 'llewyrch' gogoniant wyneb yr Arglwydd, oedd, yw, ac a fydd yn unig ffynhonnell parhad tystiolaeth yr efengyl, boed hynny yn lleol, yn genedlaethol neu ar draws y byd. Ac ni ellir gwahanu efengylu chwaith oddi wrth effeithiau cymdeithasol yr efengyl na'r alwad i ofalu am ein byd.

Gweddi

Dduw grasol, llewyrchaist gynt ym meddwl yr Apostol Paul a bendithiwyd y cenhedloedd. Drwy ufuddhau i weledigaeth neilltuol aeth Paul i Philipi. Rho i ninnau, dy bobl heddiw, weledigaeth newydd fydd yn ein harwain at bobl sy'n gynnes, wedi eu paratoi i dderbyn gair dy ras. Caniatâ i ni fod, fel Lydia, â'n calonnau'n agored i glywed, i wrando, i dderbyn ac i ymateb i'th air. Ac yn ein bywydau bob dydd caniatâ i ninnau fod yn bobl letygar, groesawgar a pharod i rannu dy air yn ein teuluoedd. Llewyrcha, O Arglwydd, dy wyneb arnom. Amen.

Emyn 614: 'Dy law, o Dduw'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru